Adroddiad Cyfarfod 13:02:19
Morfudd Thomas - Crwydro Nepal

Croesawodd Gwenan ein llywydd, bawb i ail gyfarfod y flwyddyn. Cydymdeimlodd yn fawr ag Anita yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

Ar ol gwneud ychydig o gyhoeddiadau yn ymwneud â'r mudiad roedd yn bleser gan Gwenan groesawu un o ferched Bethel atom sef Morfudd Thomas oedd am sgwrsio am grwydro Nepal. Roedden ni gyd wrth ein boddau yn clywed ei hanes yn teithio'r wlad uchel fynyddig hon ac yn dringo yn yr Himalayas. Roedd ganddi nifer helaeth o sleidiau i'w dangos a sylwadau difyr am bob un. Dywedodd bod cyfeillgarwch y bobl yn cynhesu ei chalon er gwaetha eu tlodi, ac yn arbennig teulu a chymuned ffrind o'r enw Kamal.

Yn eu tro gallodd Morfudd a'i chyd deithwyr roi rywbeth yn ôl i'r gymuned honno trwy roddi cyfarpar i'r ysgol leol. Gwelsom hefyd luniau o Morfudd yn dringo mynydd rhewllyd ger Eferest sy'n 4000 metrau o uchder ac oherwydd roedd hi wedi gorfod ymdopi â salwch uchder.

Diolchodd Anita yn wresog i Morfudd am rannu ei phrofiadau. Diolch i Falmai oedd yng ngofal y paned ac enillwyd y raffl gan Anne.

Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi ym Mhant Du ym mis Mawrth gyda'r bws yn cychwyn am 7 o'r gloch o Cysegr, ac yna gweithio i lawr i Dan y Buarth.